# Y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant

## Cofnodion Cryno o'r Pwyllgor: CC(3)-13-10 : Dydd Mercher 6 Hydref 2010

Gellir gwylio'r cyfarfod hwn ar Senedd TV yn:
http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=en_300000_06_10_2010&t=0

**Amser: 8.59 – 11.03**
**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 2, y Senedd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

### Aelodau'r Cynulliad yn bresennol

Sandy Mewies, Delyn (Cadeirydd)
Mohammad Asghar, Dwyrain De Cymru
Eleanor Burnham, Gogledd Cymru
Mark Isherwood, Gogledd Cymru
Dai Lloyd, Gorllewin De Cymru
Lynne Neagle, Tor-faen
Joyce Watson, Canolbarth a Gorllewin Cymru

### Tystion

Sarah Rochira, Cyfarwyddwr, RNIB Cymru
Richard Williams – Cyfarwyddwr, Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol Pobl Fyddar a Thrwm eu Clyw (RNID Cymru)
Chris Ryde, Trefnydd Cymru a De Orllewin Lloegr, EQUITY
Mai Jones, Rheolwr Cyffredinol, Theatr Genedlaethol Cymru ac Aelod Gweithredol o Gymdeithas Celfyddydau Perfformio Cymru
Steve Davis – Cyfarwyddwr Artistig, Theatr Spectacle
Gary Meredith – Cyfarwyddwr Artistig, Theatr Gwent

### Staff y Pwyllgor

Tom Jackson, Clerc
Sarah Bartlett, Dirprwy Glerc

### 1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon  (9.00 – 9.05)

1.1Croesawodd y Cadeirydd Aelodau'r Pwyllgor a'r cyhoedd i'r cyfarfod

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Alun Davies a Bethan Jenkins. Byddai Rosemary Butler yn dirprwyo ar ran Alun am gyfnod amhenodol yn awr, ond roedd wedi anfon ymddiheuriadau ar gyfer y cyfarfod hwn.

1.3 Nid oedd dim buddiannau i'w datgan.

## 2: Ymchwiliad i hygyrchedd gweithgareddau celfyddydol a diwylliannol yng Nghymru (9.02 – 10.48)

CC(3)-13-10 (p1) – RNIB Cymru
CC(3)-13-10 (p2) – Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol Pobl Fyddar a Thrwm eu Clyw (RNID Cymru)
CC(3)-13-10 (p3) – Cymdeithas Celfyddydau Perfformio Cymru
CC(3)-13-10 (p4) – Theatr Spectacle
CC(3)-13-10 (p5) – Theatr Gwent

2.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol Pobl Fyddar a Thrwm eu Clyw (RNID Cymru), RNIB, Cymdeithas Celfyddydau Perfformio Cymru, Theatr Spectacle a Theatr Gwent fel rhan o'u hymchwiliad i hygyrchedd gweithgareddau celfyddydol a diwylliannol yng Nghymru.

### Camau i'w cymryd

- Gofynnwyd i'r Clerc anfon nifer o gwestiynau a oedd heb eu gofyn gan yr Aelodau at RNIB a Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol Pobl Fyddar a Thrwm eu Clyw (RNID).
- Cytunodd y Pwyllgor i godi nifer o faterion â'r Gweinidog dros Dreftadaeth, mewn cysylltiad â Theatr mewn Addysg, pan fydd yn craffu ar ei waith yn eu cyfarfod ar 3 Tachwedd.
- Gofynnwyd i Theatr Gwent ddarparu linc i'r Pwyllgor at yr ymchwil i'r Model IAN yn Nenmarc ar gyfer mesur ansawdd artistig.
- Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at Gyngor Celfyddydau Cymru i gael eglurhad ynghylch nifer o faterion a godwyd gan dystion yn y cyfarfod.

## 3: *Cynnig o dan Reol Sefydlog 10.37 i benderfynu gwahardd y cyhoedd* o'r cyfarfod ar gyfer Eitem 4

2.1 Gwnaeth y Cadeirydd gynnig, o dan Reol Sefydlog 10.37(ix), i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod, i drafod materion yn ymwneud â busnes mewnol y Pwyllgor.

2.2 Cytunodd y Pwyllgor ar y cynnig.

## 4: Ymchwiliad i 'Gynhwysiant ariannol ac effaith addysg ariannol' – trafod yr adroddiad drafft

4.1 Bu'r Pwyllgor yn trafod yr adroddiad drafft ar eu hymchwiliad i gynhwysiant ariannol ac effaith addysg ariannol.

4.2 Cytunodd y Pwyllgor ar yr adroddiad, yn dilyn gwneud un gwelliant.

4.3 Cytunodd y Pwyllgor i gynnal digwyddiad lansio, i nodi cyhoeddi'r adroddiad.  .

### Cam i'w gymryd

- Gofynnwyd i'r Clerc olygu'r adroddiad i adlewyrchu'r gwelliant y cytunodd yr Aelodau arno.

## 5: Papurau a nodwyd

5.1 Nododd y Pwyllgor y papur a ganlyn:
CC(3)-12-10 : Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd 22 Medi 2010

**Gwasanaeth y Pwyllgorau**
**Hydref 2010**